# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-13-09 Papur 2: 6 Hydref 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'w papur hwn yn PET(3) 13-09 Papur 2A.

### (i) P-03-187 Diddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-187.htm

**Cynigwyd gan:** John Warman

**Nifer y llofnodion:** 23

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 2 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 7 Gorffennaf 2009.

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

### (ii) P-03-190 Na i ffordd maes awyr dyffryn Elai

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y diffygion difrifol sydd yn eu hastudiaeth a'u hymgynghoriad cyhoeddus 'Gwella Mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Chroes Cwrlwys' cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â gwelliannau na datblygiadau i ffyrdd, ac eithrio'r rhai i leddfu tagfeydd yng Nghroes Cwrlwys.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-190.htm

**Cynigwyd gan:** NEVAR (Na i ffordd maes awyr dyffryn Elai)

**Nifer y llofnodion:** 1 (cyflwynwyd gan NEVAR fel sefydliad)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 4 Rhagfyr 2008, 13 Ionawr 2009, 27 Ionawr 2009, 31 Mawrth 2009, 9 Mehefin 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

**(iii) P-03-218 Achubwch bentref Gwenfô**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ailystyried unrhyw benderfyniad yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar gan Ove Arup a all arwain at wneud Port Road, sy'n mynd trwy ochr ddwyreiniol pentref Gwenfô, yn ffordd ddeuol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-218.htm

**Cynigwyd gan:** John Campbell

**Nifer y llofnodion:** 789

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 9 Mehefin 2009 a 7 Gorffennaf 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

### (iv) P-03-205 Cadwch farchnad da byw y Fenni

## Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gadw cymeriad hanesyddol y Fenni fel tref farchnad drwy beidio â diddymu na diwygio Deddfau Gwelliannau i'r Fenni 1854 i 1871, gan felly gadw'r holl fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sydd ynghlwm â bod yn dref farchnad.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-205.htm

**Cynigwyd gan:** Barry Greenwood

**Nifer y llofnodion:** 4,757

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor:** 19 Mai 2009, 9 Mehefin 2009 a 23 Mehefin 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Cyngor Sir Fynwy, Abergavenny Market Auctioneers Cyf ac Undeb Amaethwyr Cymru, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

**(v) P-03-219 Fferyllfeydd yn y Barri**

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i achub ein fferyllfeydd stryd fawr lleol. Ein bwriad, wrth gyflwyno'r ddeiseb hon, yw dangos anghysonderau cyfredol y system bresennol o 'gymdogaethau' fel ag y maent mewn perthynas ag ail-leoli fferyllfeydd yng Nghymru.

Ni chaniateir i unrhyw fferyllfa ail-leoli ar raddfa fach fel y diffinnir yn Rheoliadau Fferyllfeydd 1992 oni bai ei bod o fewn y gymdogaeth a ddiffinnir**.**

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-219.htm

**Cynigwyd gan:** Aneurin Evans Chemists Cyf a Judith Evans Pharmacies

**Nifer y llofnodion:** dros 3,000

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 23 Mehefin 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Fferyllol Cymru, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3)-13-09 Papur 2A.

## (vi) P-03-222 Cymdeithas Genedlaethol Osteoporosis

## Geiriad y ddeiseb

Mae'r Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu'r safon ar gyfer cwympo a thorri esgyrn yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yn llawn, gan sicrhau bod cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u trin gan wasanaethau cyswllt torri esgyrn ym mhob un o'r Byrddau Iechyd Lleol newydd. Hoffwn weld gwasanaeth cyswllt torri esgyrn yn cael ei gysylltu â phob ysbyty sy'n trin cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder a gofynnwn i Lywodraeth Cymru fynnu bod gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael eu darparu'n gyffredinol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-222.htm

**Cynigwyd gan:** Cymdeithas Genedlaethol Osteoporosis

**Nifer y llofnodion:** 22

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

## (vii) P-03-223 Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddiwygio ac i wneud gwelliannau i Adran 6, Deddf yr Iaith Gymraeg, i ddod ag Aelodau Seneddol o dan adain Deddf yr Iaith Gymraeg.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-223.htm

**Cynigwyd gan:** Y Cynghorydd O. Arfon Jones

**Nifer y llofnodion:** 23

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan Wasanaeth Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### (viii) P-03-225 Coleg Gorseinon

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi arian ychwanegol i Goleg Gorseinon i gadw cyrsiau a dosbarthiadau ar agor a pharhau i gael eu cynnig.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-225.htm

**Cynigwyd y ddeiseb gan:** Tracy Bates

**Nifer y llofnodion:** dros 800

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Fforwm a Choleg Gorseinon, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

### (ix) P-03-232 Coetiroedd Ffynnone a Chilgwyn

### Geiriad y ddeiseb

Mae Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i'r cyllid a roddwyd i Calon yn Tyfu / Growing Hearts Ltd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer prynu coetiroedd Ffynnone a Chilgwyn yng Ngogledd Sir Benfro o dan Gynllun Cydcoed, a ariennir yn gyhoeddus.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-232.htm

**Cynigwyd gan:** Cyngor Cymuned Manordeifi Community Council

**Nifer y llofnodion:** 329

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y deisebwyr, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 13-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Hydref 2009**